

---

## **Lleoliad BBC Sounds yn y Farchnad**

Cais am dystiolaeth

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 14 Hydref 2020

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 11 Tachwedd 2020

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

**Rydyn ni'n chwilio am dystiolaeth a gwybodaeth ynglŷn ag effaith BBC Sounds a'i leoliad yn y farchnad.**

- 1.1 Mae BBC Sounds yn wasanaeth ffrydio cyfryngau a lawrlwytho sain gan y BBC, ac mae'n cynnwys radio byw, sain ar alw, a phodlediadau. Mae ar gael ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau, gan gynnwys ffonau symudol a thabledi, cyfrifiaduron personol, systemau sain mewn ceir a setiau teledu clyfar.
- 1.2 Mae'r gwasanaeth yn elfen graidd o gynigiad sain y BBC, fel yr esbonnir yn adroddiadau blynyddol mwyaf diweddar y BBC. Ar yr un pryd, rydyn ni'n ymwybodol fod rhanddeiliaid yn y sector radio masnachol wedi mynegi pryderon am ddatblygiad BBC Sounds.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae BBC Sounds wedi esblygu ers iddo gael ei lansio yn 2018, y pryderon a fynegwyd i ni am effaith BBC Sounds ar y farchnad, rôl y BBC ac Ofcom, a'r dystiolaeth a'r wybodaeth rydyn ni eisiau eu cael.
- 1.4 Byddwn yn croesawu ymatebion erbyn 11 Tachwedd 2020.
- 1.5 Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth, a phenderfynu ar y camau nesaf cyn diwedd y flwyddyn.

## Ein galwad am fewnbwn:

- **Mae'r sector radio a sain yn mynd drwy gyfnod o newid sydyn oherwydd esblygiad y gwasanaethau ffrydio**, gan gynnwys dyfodiad chwaraewyr byd-eang megis Spotify ac Apple Music.
- **Mae disgwyliadau cynulleidfaoedd yn newid hefyd**; maent eisiau gwrando fwyfwy ar y cynnwys o'u dewis nhw, pryd a ble maent eisiau, ac mae tuedd i gynulleidfaoedd iau, yn arbennig, wrando ar-lein.
- **Mae'r BBC wedi ymateb i'r gystadleuaeth a'r newidiadau hyn ymysg y gynulleidfa drwy ddatblygu ac ehangu BBC Sounds**. Oherwydd y newidiadau cynyddol y mae'r BBC wedi'u gwneud i BBC Sounds, rydyn ni'n ystyried mai nawr yw'r adeg iawn i gymryd stoc o'i leoliad yn y farchnad ac i asesu a oes angen mynd i'r afael â materion drwy weithredu rheoleiddiol neu drwy ddulliau eraill.
- **Mae cystadleuwyr yn y sector radio masnachol wedi mynegi pryderon am leoliad BBC Sounds yn y farchnad**. Dyma gyfle i ddeall eu safbwyntiau a'r dystiolaeth sy'n eu cefnogi.
- **Rydyn ni felly yn chwilio am dystiolaeth gan rhanddeiliaid am yr effaith y mae BBC Sounds yn ei chael ar y farchnad**, gan gynnwys gwybodaeth am gyd-destun y farchnad y mae BBC Sounds wedi'i leoli ynddi.
- **Yn olaf, rydyn ni hefyd yn awyddus i ddeall strategaeth y BBC ar gyfer BBC Sounds**, y rôl y mae'n disgwyl ei chwarae i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, a sut gallai hyn effeithio ar gystadleuaeth.